



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 1772 (Cy.168)

2002 No. 1772 (W.168)

CEFN GWLAD, CYMRU

COUNTRYSIDE, WALES

**Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn
Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb
Gwyddonol Arbennig, Apelau)
(Cymru) 2002**

**The Wildlife and Countryside
(Sites of Special Scientific Interest,
Appeals) (Wales)
Regulations 2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan III o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("Deddf 2000") ac Atodlen 9 iddi yn amnewid adrannau 28 i 28R newydd yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981"). Mae Rhan III o Ddeddf 2000 ac Atodlen 11 iddi yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn perthynas â Deddf 1981.

Part III of and Schedule 9 to the Countryside and Rights of Way Act 2000 ("the 2000 Act") substitutes new sections 28 to 28R in the Wildlife and Countryside Act 1981 ("the 1981 Act"). Part III of and Schedule 11 to the 2000 Act makes transitional provisions in relation to the 1981 Act.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth weithdrefnol, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer apelau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan berchenogion neu feddianwyr safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig o dan -

These Regulations make procedural provision, in relation to Wales, for appeals to the National Assembly for Wales by the owners or occupiers of sites of special scientific interest under -

- (a) adran 28F(1) o Ddeddf 1981, yn erbyn gwrthodiad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ("y Cyngor") i gydsynio â gweithrediadau penodol ar y tir, yn erbyn yr amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniad o'r fath, yn erbyn addasu neu dynnu'n ôl gydsyniad o'r fath, neu yn erbyn methiant y Cyngor i benderfynu ar gais am gydsyniad o fewn y cyfnod a ragnodwyd gan Ddeddf 1981;
- (b) adran 28(L)(1) o Ddeddf 1981, yn erbyn hysbysiad rheoli a gyflwynwyd gan y Cyngor;
- (c) paragraff 11(1) o Atodlen 11 i Ddeddf 2000, yn erbyn hysbysiad stop a gyflwynwyd gan y Cyngor mewn perthynas â gweithrediadau ar y tir.

- (a) section 28F(1) of the 1981 Act, against a refusal by the Countryside Council for Wales ("the Council"), to consent to certain operations on the land, against the conditions attached to such a consent, against the modification or withdrawal of such a consent, or against the failure of the Council to determine an application for consent within the period prescribed by the 1981 Act;
- (b) section 28(L)(1) of the 1981 Act, against a management notice served by the Council;
- (c) paragraph 11(1) of Schedule 11 to the 2000 Act, against a stop notice served by the Council in respect of operations on the land.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhagnodi o fewn pa amser y mae'n rhaid dwyn apêl o dan adran 28(L)(1) o Ddeddf 1981, sef bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ei derbyn o fewn y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad rheoli y mae'n berthnasol iddo oni chytunwyd ar gyfnod hwy gan y Cyngor a'r apelydd.

These Regulations also prescribe the time within which an appeal under section 28(L)(1) of the 1981 Act must be brought, namely that it must be received by the National Assembly within the period of 2 months beginning with the date of the management notice to which it relates unless a longer period has been agreed by the Council and the appellant.

2002 Rhif 1772 (Cy.168)**2002 No. 1772 (W.168)****CEFN GWLAD, CYMRU****COUNTRYSIDE, WALES****Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn
Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb
Gwyddonol Arbennig, Apelau)
(Cymru) 2002****The Wildlife and Countryside
(Sites of Special Scientific Interest,
Appeals) (Wales)
Regulations 2002**

Wedi'u gwneud 9 Gorffennaf 2002
Yn dod i rym 31 Gorffennaf 2002

Made 9th July 2002
Coming into force 31st July 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 28F(6) a 28L(8) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(a) a pharagraffau 11(2) a 17(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(b) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(c), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 28F(6) and 28L(8) of the Wildlife and Countryside Act 1981(a) and paragraphs 11(2) and 17(3) of Schedule 11 to the Countryside and Rights of Way Act 2000(b) and which are now exercisable by the National Assembly(c), hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwys**Citation, commencement, and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Wildlife and Countryside (Sites of Special Scientific Interest, Appeals) (Wales) Regulations 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2002.

(2) These Regulations come into force on 31st July 2002.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) These Regulations apply to Wales.

Dehongli**Interpretation**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

2. -(1) In these Regulations -

ystyr "apêl cydsyniad" ("*consent appeal*") yw apêl o dan adrannau 28F(1) neu 28F(2) o Ddeddf 1981;

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Countryside and Rights of Way Act 2000;

ystyr "apêl gwrthodiad tybiedig" ("*deemed refusal appeal*") yw apêl cydsyniad o dan adran 28F(2) o Ddeddf 1981;

"the 1981 Act" ("*Deddf 1981*") means the Wildlife and Countryside Act 1981;

"appointed person" ("*person penodedig*") means a person appointed for the time being by

(a) 1981 p.69; amnewidiwyd adran 28 gan adrannau 28 i 28R o dan adran 75(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) ac Atodlen 9, paragraff 1 iddi.

(a) 1981 c.69; section 28 was replaced by sections 28 to 28R under section 75(1) of and Schedule 9, paragraph 1 to the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37).

(b) 2000 p.37.

(b) 2000 c.37.

(c) Cafodd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* Erthygl 2 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, fel y'i diwygiwyd gan adran 99 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(c) The powers of the Secretary of State in so far as exercisable in relation to Wales have been transferred to the National Assembly for Wales: *see* Article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), as amended by section 99 of the Countryside and Rights of Way Act 2000.

ystyr "apêl hysbysiad rheoli" ("*management notice appeal*") yw apêl o dan adran 28L(1) o Ddeddf 1981;

ystyr "apêl hysbysiad stop" ("*stop notice appeal*") yw apêl o dan baragraff 11(1) o Atodlen 11 i Ddeddf 2000;

ystyr "cyfathrebu electronig" ("*electronic communication*") yw cyfathrebu sy'n cael ei drosglwyddo (naill ai oddi wrth un person at un arall, oddi wrth un ddyfais at un arall neu oddi wrth berson i ddyfais neu i'r gwrthwyneb) drwy gyfrwng system delathrebu (o fewn ystyr Deddf Telathrebu 1984(a) neu drwy gyfrwng arall ond tra bydd mewn ffurf electronig;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

ystyr "Deddf 1981" ("*the 1981 Act*") yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;

mae i "y dyddiad dechrau" ("*starting date*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 9(3);

ystyr "ffurf ddarllenadwy" ("*legible form*"), mewn perthynas â dogfen a anfonir drwy gyfrwng cyfathrebu electronig, yw ffurf y gellir ei darllen ar sgrîn cyfrifiadur;

ystyr "ffurf electronig" ("*electronic form*") yw ffurf y gellir storio arni, trosglwyddo iddi ac oddi wrthi, a ffurf y gellir ei darllen drwy gyfrwng cyfrifiadur;

ystyr "hysbysiad apêl" ("*notice of appeal*") yw hysbysiad y mae apêl cydsyniad, apêl hysbysiad rheoli neu apêl hysbysiad stop, yn ôl y digwydd, yn cael ei dwyn;

ystyr "person penodedig" ("*appointed person*") yw person a benodwyd am y tro gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 28F(8) neu adran 28L(10) o Ddeddf 1981 i ystyried y sylwadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i apêl neu, os yw'r apêl ar ffurf ymchwiliad neu wrandawriad lleol, i lywio'r ymchwiliad neu'r gwrandawriad, ac i benderfynu'r apêl os bydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny;

ystyr "rheoliad parti 7(1)(b)" ("*regulation 7(1)(b) party*") yw person y mae'n ofynnol anfon hysbysiad ato gan reoliad 7(1)(b) o'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "yr hysbysiad o benderfyniad" ("*the decision notice*") -

- (a) yn achos apêl cydsyniad, yw hysbysiad yn rhoi cydsyniad y Cyngor yn ddarostyngedig i amodau neu am gyfnod cyfyngedig o dan adran 28E(4) o Ddeddf 1981 neu'r hysbysiad a roddir gan y Cyngor o dan adran 28E(5) neu

the National Assembly under section 28F(8) or section 28L(10) of the 1981 Act to consider the written representations relating to an appeal or, if the appeal is to take the form of a local inquiry or hearing, to conduct the inquiry or hearing, and to determine the appeal if authorised to do so;

"a consent appeal" ("*apêl cydsyniad*") means an appeal under sections 28F(1) or 28F(2) of the 1981 Act;

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Countryside Council for Wales;

"a deemed refusal appeal" ("*apêl gwrthodiad tybiedig*") means a consent appeal under section 28F(2) of the 1981 Act;

"electronic communication" ("*cyfathrebu electronig*") means a communication transmitted (whether from one person to another, from one device to another or from a person to a device or vice versa) by means of a telecommunications system (within the meaning of the Telecommunications Act 1984(a) or by other means but while in an electronic form;

"electronic form" ("*ffurf electronig*") means a form capable of being stored on, transmitted to and from, and read by means of a computer;

"legible form" ("*ffurf ddarllenadwy*") means, in relation to a document sent by means of an electronic communication, a form in which it is capable of being read on a computer screen;

"a notice of appeal" ("*hysbysiad apêl*") means a notice by which a consent appeal, a management notice appeal or a stop notice appeal, as the case may be, is brought;

"a management notice appeal" ("*apêl hysbysiad reoli*") means an appeal under section 28L(1) of the 1981 Act;

a "regulation 7(1)(b) party" ("*parti rheoliad 7(1)(b)*") means a person to whom a notice is required to be sent by regulation 7(1)(b) of these Regulations;

"the starting date" ("*y dyddiad dechrau*") has the meaning given in regulation 9(3);

"a stop notice appeal" ("*apêl hysbysiad stop*") means an appeal under paragraph 11(1) of Schedule 11 to the 2000 Act.

(2) In these Regulations, "the decision notice" ("*yr hysbysiad penderfyniad*") means-

- (a) in the case of a consent appeal, the notice giving the consent of the Council subject to conditions or for a limited period under section 28E(4) of the 1981 Act or the notice given by the Council under section 28E(5) or section

(a) 1984 p.12.

(a) 1984 c.12.

- adran 28E(6) o Ddeddf 1981, yn ôl y digwydd;
- (b) yn achos apêl hysbysiad rheoli, yw'r hysbysiad a roddir gan y Cyngor o dan adran 28K o Ddeddf 1981;
 - (c) yn achos apêl hysbysiad stop, yw'r hysbysiad a roddir gan y Cyngor o dan baragraff 9(3) o Atodlen 11 i Ddeddf 2000;

y mae'r apêl yn berthnasol iddo.

Cynnwys hysbysiad apêl

3. Rhaid i hysbysiad apêl -

- (a) datgan enw llawn a chyfeiriad yr apelydd ac unrhyw berson a awdurdodwyd i weithredu ar ran yr apelydd mewn perthynas â'r apêl;
- (b) ac eithrio mewn achos o apêl gwrthodiad tybiedig, amgau copi o'r hysbysiad o benderfyniad;
- (c) yn achos apêl cydsyniad sy'n ymwneud â gwrthodiad i roi cydsyniad ar gyfer gweithrediad, roi manylion o'r gweithrediad y gwrthodwyd cydsyniad ar ei gyfer (oni roddir manylion o'r fath yn yr hysbysiad o benderfyniad);
- (ch) yn achos apêl hysbysiad rheoli y mae seiliau'r apêl yn cynnwys sail y dylai rhyw berchennog neu feddiannydd tir heblaw'r apelydd gymryd y cyfan neu rai o'r mesurau a bennir yn yr hysbysiad o benderfyniad, neu dalu'r cyfan neu ran o'u costau, ddatgan enw llawn a chyfeiriad unrhyw berson o'r fath;
- (d) datgan seiliau'r apêl;
- (dd) os bydd yr apelydd yn dymuno cael gwrandawriad gan berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig), ddatgan hynny a datgan ymhellach os yw'r apelydd yn dymuno cael y gwrandawriad mewn ymchwiliad lleol neu, ar y llaw arall, mewn gwrandawriad, ac os mewn gwrandawriad, os yw'r apelydd yn dymuno i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat os bydd y person sy'n gwrandaw'r apêl yn cytuno â hynny; ac
- (e) os yw'r apelydd a'r Cyngor wedi cytuno'n ysgrifenedig y dylai'r amser i'r hysbysiad apêl ddod i law fod yn hwy na'r hyn a bennir gan Ddeddf 1981 neu, yn achos apêl hysbysiad rheoli, y dylai'r cyfnod sy'n gymwys o dan Reoliad 6(2)(a)(i) fod yn hwy na dau fis, amgau copi o'r ddogfen sy'n cofnodi'r cytundeb hwnnw.

4. Caiff hysbysiad apêl fod yn Gymraeg neu Saesneg ond os yw'r apelydd yn dymuno i'r apêl gael ei thrin yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng un o'r ddwy

28E(6) of the 1981 Act, as the case may be;

- (b) in the case of a management notice appeal, the notice given by the Council under section 28K of the 1981 Act;
- (c) in the case of a stop notice appeal, the notice given by the Council under paragraph 9(3) of Schedule 11 to the 2000 Act;

to which the appeal relates.

Contents of a notice of appeal

3. A notice of appeal must -

- (a) state the full name and address of the appellant and of any person authorised to act on behalf of the appellant in relation to the appeal;
- (b) except in the case of a deemed refusal appeal, be accompanied by a copy of the decision notice;
- (c) in the case of a consent appeal relating to a refusal to give consent for an operation, give particulars of the operation for which consent has been refused (unless such particulars are given in the decision notice);
- (d) in the case of a management notice appeal in relation to which the grounds of appeal include a ground that some owner or occupier of land other than the appellant should take all or any of the measures specified in the decision notice, or should pay all or part of their cost, state the full name and address of any such person;
- (e) state the grounds of the appeal;
- (f) if the appellant wishes to be heard by a person appointed by the National Assembly in connection with the appeal (rather than that the appeal be determined on the basis of written representations), say so and further state whether the appellant wishes to be heard at a local inquiry or, alternatively, at a hearing and, if a hearing, whether the appellant wishes the hearing to be held in private if the person hearing the appeal agrees; and
- (g) if the appellant and the Council have agreed in writing that the time by which the notice of appeal must be received should be longer than that specified by the 1981 Act or, in the case of a management notice appeal, that the period which is to apply under Regulation 6(2)(a)(i) is to be longer than two months, be accompanied by a copy of the document recording that agreement.

4. A notice of appeal may be in either the English language or in the Welsh language but if the appellant wishes the appeal to be dealt with in whole or in part

iaith heblaw'r un y mynegir yr hysbysiad apêl ynddi, dylai cais i'r perwyl hwnnw gael ei gynnwys yn yr hysbysiad apêl neu gael ei amgau gydag'r hysbysiad.

Dechrau apêl

5. Dechreuir apêl drwy anfon hysbysiad apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Camau i'w cymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl cael hysbysiad apêl

6.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn hysbysiad apêl, anfon copi ohono i'r Cyngor, ynghyd â chopi o unrhyw ddogfen arall a amgaewyd gydag ef.

(2) Nid yw paragraff (1) uchod yn gymwys i'r canlynol -

- (a) i hysbysiad apêl y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gael:
 - (i) yn achos unrhyw apêl heblaw apêl gwrthodiad tybiedig, ar ôl i gyfnod o ddau fis ddod i ben (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunwyd arno'n ysgrifenedig gan yr apelydd a'r Cyngor) gan ddechrau ar ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad; neu
 - (ii) yn achos apêl gwrthodiad tybiedig, ar ôl i gyfnod o chwe mis ddod i ben (neu'r cyfnod hwy hwnnw y cytunwyd arno'n ysgrifenedig gan yr apelydd a'r Cyngor) gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonodd yr apelydd hysbysiad i'r Cyngor o gynnig i gyflawni'r gweithrediad yr ymdrinnir ag ef fel pe bai'r cydsyniad ar ei gyfer wedi cael ei wrthod;
- (b) i hysbysiad apêl y mae'r apelydd, mewn manylyn perthnasol, wedi methu cydymffurfio â gofynion rheoliad 3 mewn perthynas ag ef, ond mewn achos o'r fath caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi hysbysiad i'r apelydd o natur y methiant hwnnw a'r camau sy'n angenrheidiol i'w gywiro ac os bydd yr apelydd, cyn pen 14 diwrnod ar ôl cael hysbysiad o'r fath yn cymryd y camau gofynnol, ni fydd yr is-baragraff bellach yn gymwys i'r hysbysiad apêl o dan sylw.

Y camau sydd i'w cymryd gan y Cyngor ar ôl cael copi o'r hysbysiad apêl

7.-(1) Rhaid i'r Cyngor, o fewn 14 diwrnod ar ôl cael copi o'r hysbysiad apêl gan y Cynulliad Cenedlaethol roi hysbysiad ysgrifenedig-

- (a) yn achos apêl cydsyniad, i unrhyw berson (heblaw'r apelydd) a wnaeth sylwadau i'r Cyngor mewn perthynas â'r penderfyniad ar ran y Cyngor y mae'r apêl yn berthnasol iddo (neu, yn achos apêl gwrthodiad tybiedig,

through the medium of the language other than that in which the notice of appeal is expressed it should incorporate or be accompanied by a request to that effect.

Starting an appeal

5. An appeal is started by sending a notice of appeal to the National Assembly.

Action by the National Assembly on receipt of a notice of appeal

6.-(1) The National Assembly must, as soon as reasonably practicable after receiving a notice of appeal, send a copy of it to the Council, together with a copy of any other document which accompanied it.

(2) Paragraph (1) does not apply-

- (a) to a notice of appeal received by the National Assembly:
 - (i) in the case of any appeal other than a deemed refusal appeal, after the expiry of the period of two months (or such longer period as has been agreed in writing by the appellant and the Council) beginning with the date of the decision notice; or
 - (ii) in the case of a deemed refusal appeal, after the expiry of the period of six months (or such longer period as has been agreed in writing by the appellant and the Council) beginning with the date on which the appellant sent to the Council notice of a proposal to carry out the operation for which consent is treated as having been refused;
- (b) to a notice of appeal in respect of which the appellant has failed, in a material respect, to comply with the requirements of regulation 3, but in such a case the National Assembly may give notice to the appellant of the nature of that failure and of the steps necessary to rectify it and if the appellant, within 14 days of receipt of such notice, takes the steps required, this sub-paragraph will no longer apply to the notice of appeal in question.

Action by the Council on receipt of a copy of a notice of appeal

7.-(1) The Council must, within 14 days of receiving from the National Assembly a copy of a notice of appeal, give notice in writing-

- (a) in the case of a consent appeal, to any person (other than the appellant) who made representations to the Council in respect of the decision on the part of the Council to which the appeal relates (or, in the case of a deemed

mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y gallasai'r Cyngor fod wedi'i gymryd pe na bai'r apelydd wedi ymdrin â'r Cyngor fel pe bai wedi gwrthod cydsynio);

- (b) yn achos apêl hysbysiad rheoli y mae seiliau'r apêl mewn perthynas ag ef yn cynnwys sail y dylai rhyw berchennog neu feddiannydd tir heblaw'r apelydd gymryd pob mesur neu unrhyw rai o'r mesurau a bennir yn yr hysbysiad o benderfyniad, neu dalu eu costau yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i unrhyw berson o'r fath;
- (c) i unrhyw berson arall y mae'n ymddangos i'r Cyngor fod ganddo diddordeb digonol ym mhwnc yr apêl.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1) -

- (a) nodi'r safle o ddi-ddordeb gwyddonol arbennig y mae'r apêl yn berthnasol iddo;
- (b) cael ei ddyddio;
- (c) amgau copi o'r hysbysiad apêl ac unrhyw hysbysiad o benderfyniad;
- (ch) datgan y caiff y derbynnydd, o fewn 28 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad -
 - (i) gwneud sylwadau ysgrifenedig, a all fod naill ai yn Gymraeg neu Saesneg, i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r apêl ac y bydd, yn yr achos hwnnw, gopïau o'r sylwadau hynny'n cael eu darparu i'r apelydd ac i'r Cyngor; a
 - (ii) gwneud cais ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol i gael ei hysbysu am y penderfyniad ar yr apêl;
- (d) datgan y bydd derbynnydd sy'n gwneud sylwadau yn unol â pharagraff (2)(ch)(i), os bydd ymchwiliad lleol i'w gynnal, neu os bydd gwrandawriad i'w gynnal a fydd yn gyhoeddus yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn cael ei hysbysu o ddyddiad a lleoliad yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1) a anfonir at barti rheoliad 7(1)(b) gynnwys datganiad y dylai unrhyw barti sy'n dymuno cael gwrandawriad gan berson wedi'i benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig) amgau datganiad i'r perwyl hwnnw gydag unrhyw sylwadau a wneir i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac os yw'n gwneud felly, y dylai amgau datganiad pellach a yw'r parti hwnnw'n dymuno cael ei glywed mewn ymchwiliad lleol neu, ar y llaw arall, mewn gwrandawriad.

refusal appeal, in respect of any decision which the Council might have taken if the appellant had not treated the Council as having refused consent);

- (b) in the case of a management notice appeal in relation to which the grounds of appeal include a ground that some owner or occupier of land other than the appellant should take all or any of the measures specified in the decision notice, or should pay all or part of their cost, to any such person;
- (c) to any other person who appears to the Council to have a sufficient interest in the subject matter of the appeal.

(2) A notice under paragraph (1) must -

- (a) identify the site of special scientific interest to which the appeal relates;
- (b) be dated;
- (c) be accompanied by a copy of the notice of appeal and of any decision notice;
- (d) state that, within 28 days beginning with the date of the notice, the recipient may-
 - (i) make representations in writing, which may be in either the English language or the Welsh language, to the National Assembly with respect to the appeal and that, in that event, copies of those representations will be provided to the appellant and to the Council; and
 - (ii) request in writing to the National Assembly to be notified of the decision on the appeal;
- (e) state that if a local inquiry is to be held, or a hearing is to be held which is to be wholly or partly in public, a recipient who makes representations in accordance with paragraph (2)(d)(i) will be notified of the date of the inquiry or hearing.

(3) A notice under paragraph (1) which is sent to a regulation 7(1)(b) party must be accompanied by a statement that if that party wishes to be heard by a person appointed by the National Assembly in connection with the appeal, (rather than that the appeal be determined on the basis of written representations), any representations made to the National Assembly by that party should be accompanied by a statement to that effect and if so by a further statement as to whether that party wishes to be heard at a local inquiry or, alternatively, at a hearing .

Ymateb gan y Cyngor i apêl

8. Rhaid i'r Cyngor, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol gopi o hysbysiad apêl, anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, at yr apelydd ac at unrhyw barti rheoliad 7(1)(b) -

- (a) datganiad a yw'n gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, ei seiliau dros wneud hynny;
- (b) yn achos apêl cydsyniad, copi o unrhyw hysbysiad perthnasol o gynnig i gyflawni'r gweithrediad (ynghyd â'r planiau a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef) a roddwyd i'r Cyngor o dan adran 28E(1) o Ddeddf 1981;
- (c) copiâu o unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng yr apelydd a'r Cyngor;
- (ch) copiâu o unrhyw sylwadau a roddwyd i'r Cyngor gan unrhyw berson heblaw'r apelydd mewn perthynas â'r penderfyniad ar ran y Cyngor y mae'r apêl yn berthnasol iddo (neu, yn achos apêl gwrthodiad tybiedig, mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y gallasai'r Cyngor fod wedi'i gymryd pe na bai'r apelydd wedi ymdrin â'r Cyngor fel pe bai wedi gwrthod cydsynio);
- (d) datganiad o enwau a chyfeiriadau unrhyw bersonau y mae'r Cyngor wedi anfon hysbysiad atynt o dan reoliad 7(1) a'r dyddiad yr anfonwyd hysbysiad o'r fath; ac
- (dd) os bydd y Cyngor yn dymuno cael gwrandawriad gan berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl, datganiad i'r perwyl hwnnw ac os felly, os yw'r Cyngor yn dymuno cael y gwrandawriad mewn ymchwiliad lleol neu, ar y llaw arall, mewn gwrandawriad, ac os mewn gwrandawriad, os yw'r Cyngor yn dymuno i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat os bydd yr apelydd yn gofyn am hynny.

Hysbysiad o'r weithdrefn apelio

9.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, heb fod yn gynharach na 28 diwrnod ar ôl y diweddraf o unrhyw ddyddiadau a nodir gan y Cyngor yn unol â rheoliad 8(d) fel y dyddiadau pan anfonodd y Cyngor hysbysiadau o dan reoliad 7(1) ond mor fuan ag sy'n ymarferol wedyn, anfon:

- (a) at yr apelydd;
- (b) i'r Cyngor; ac
- (c) at unrhyw berson yr anfonwyd hysbysiad ato o dan reoliad 7(1),

hysbysiad yn pennu pa ffurf a fydd i'r apêl.

(2) Rhaid i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) gael ei ddyddio a rhaid iddo ddatgan a yw'r apêl i gymryd ffurf:

- (i) ymchwiliad lleol;

Response by the Council to an appeal

8. The Council must, within 28 days of receiving from the National Assembly a copy of a notice of appeal, send to the National Assembly, to the appellant and to any regulation 7(1)(b) party -

- (a) a statement whether it opposes the appeal and, if so, of its grounds for doing so;
- (b) in the case of a consent appeal, a copy of any relevant notice of a proposal to carry out the operation (together with accompanying plans and documents) given to the Council under section 28E(1) of the 1981 Act;
- (c) copies of any relevant correspondence between the appellant and the Council;
- (d) copies of any representations made to the Council by any person other than the appellant in respect of the decision on the part of the Council to which the appeal relates (or, in the case of a deemed refusal appeal, in respect of any decision which the Council might have taken if the appellant had not treated the Council as having refused consent);
- (e) a statement of the names and addresses of any persons to whom the Council have sent a notice under regulation 7(1) and the date on which such notice was sent; and
